OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 971

## Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011

**Diwygio Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 —

(a) yn lle is-baragraff (a) o baragraff (1), rhodder—

“ystyr “y Gyfarwyddeb Wastraff” (“*the Waste Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff”;

(b) yn lle is-baragraff (c) o baragraff (1), rhodder—

“(c) mae cyfeiriad at briodweddau peryglus yn gyfeiriad at y priodweddau a osodir yn Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Wastraff.”;

(c) yn lle is-baragraff (b) o baragraff (2), rhodder—

“(b) ystyr “y Rhestr Wastraffoedd” (“*the List of Wastes*”) yw'r rhestr wastraffoedd a osodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd ac mae cyfeiriad at y Rhestr Wastraffoedd yn cynnwys cyfeiriad at ei chyflwyniad (“y Cyflwyniad i'r Rhestr”).”.

(3) Yn rheoliad 4—

(a) o flaen “H3 i H8”, mewnosoder “peryglus”;

(b) hepgorer “o Atodiad III”.

(4) Hepgorer paragraffau 1 a 2 o Atodlen 2.

(**1**) O.S. 2005/1820 (Cy.148).